

Llywio drwy Systemau Cymhleth: Blaenoriaethu Pobl

Dydd Mercher 15 Mai

Park Inn Canol Dinas Caerdydd

09:00	Cofrestru
09:30	Gair o groeso Katie Dalton, Cyfarwyddwr - Cymorth Cymru
09:40	Arbenigwyr trwy brofiad
09:50	Araith allweddol: ail-ddychmygu gwasanaethau a systemau Ben Hartridge, Ymchwilydd - Labordy Cynllunio Gwasanaeth Dartington Gan adeiladu ar y trafodaethau a'r sgysiau a gafwyd yn ein Cynhadledd Flynyddol, bydd ein siaradwr allweddol yn sôn am y gwaith a weir yn Dartington i ddiwygio systemau ac ailgynllunio gwasanaethau, gyda'r bwriad o wella bywydau unigolion, teuluoedd a chymunedau.
10:30	Toriad am luniaeth ysgafn
10:45	Sut mae pethau wedi mynd hyd yma? Gwerthuso'r Llwybr Cenedlaethol Sarah Dubberley, Uwch-ddarlithydd mewn Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol - Prifysgol Glyndŵr Wrecsam Bydd y sesiwn hon yn cyflwyno trosolwg o'r ddogfen <i>Evaluation of the National Pathway for Homelessness Services to Children, Young People and Adults in the Secure Estate</i> . Bydd yn nodi canfyddiadau'r adroddiad gwerthuso, ac yn dangos i'r cynadleddwyr pa mor bell y mae angen mynd eto yn nhermau mynd i'r afael ag anghenion tai a chymorth pobl sy'n gadael y carchar.
11:15	Fframwaith i gefnogi newid positif yn achos y rhai sydd mewn perygl o aildroseddu yng Nghymru Meinir Edwards a Tracey Owen - Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Bydd y sesiwn hon yn edrych ar enghreifftiau o ymarfer positif ar draws y gwasanaeth prawf, ac yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau sy'n digwydd ledled Cymru. Bydd yn darparu cyd-destun ymarferol, yn sgil y sesiwn gynharach, ynghylch sut mae gwasanaethau'n dechrau ymateb – ac yn parhau i ymateb – i heriau sy'n wynebu pobl wrth iddynt adael y carchar.
11:45	Cwestiynau Cyfle i'r gynulleidfa holi'r ddau siaradwr uchod.
12:00	Cinio
12:45	Gweithdai
	Dyfodol plismona a chyfiawnder yng Nghymru Juliet Lyon, Sarah Payne, Martin Wade & David Slade - Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru Gyda'r Comisiwn yn bwriadu cyflwyno'i adroddiad i Lywodraeth Cymru yn hwyrach yn 2019, mae'r gweithdy hwn yn gyfle gwerthfawr i alluogi'r sector tai a chymorth i ddylanwadu ar ddyfodol plismona a chyfiawnder yng Nghymru.
	Cydlynu Ardal Leol Jon Franklin a Ronan Ruddy - Tim Cydlynu Ardal Leol Abertawe Mae'r gweithdy hwn yn rhoi cyflwyniad i ddull newydd o gydlynu gwasanaethau, a ffordd newydd o weithio'n uniongyrchol gyda phobl yn eu hardaloedd eu hunain. Gall Cydlynu Ardal Leol eu helpu i lywio gwasanaethau a chael mynediad at yr hyn mae arnynt ei angen, ar yr adeg iawn.



Llywio drwy Systemau Cymhleth: Blaenoriaethu Pobl

Dydd Mercher 15 Mai

Park Inn Canol Dinas Caerdydd

13:45	Gweithdai
	<p>Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Miriam Merkova, Rheolwr Datblygu Gwasanaethau & Elinor Crouch-Puzey, Swyddog Polisi ac Ymchwil - Cymorth i Ferched Cymru Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar yr anfanteision a'r rhwystrau – niferus yn aml – sy'n wynebu merched sy'n cael profiad o VAWDASV wrth iddynt geisio llywio'u ffordd drwy'r system – a sut y gallwn helpu pobl i'w goresgyn.</p> <p>Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau Tim Nunn a Darren Lewis - Llywodraeth Cymru Bydd y gweithdy hwn yn ffocysu ar broblemau sy'n cyd-ddigwydd yng nghyd-destun iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, yn cynnwys y rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio cael y cymorth mae arnynt ei angen – a sut y gallwn eu goresgyn. Bydd cynadleddwyr yn cael diweddiariad o'r datblygiadau diweddar, a chyfle i siapio polisi ac ymarfer yn y dyfodol.</p>
14:30	Egwyl
14:45	<p>Digartrefedd ymhlith pobl ifanc a gadael gofal: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol Andrew Connell, Ymchwilydd Cysylltiol - Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) Cyflwyniad o themâu allweddol o adroddiad dylanwadol WCPP, <i>Preventing Youth Homelessness: An International Review of Evidence</i>. Bydd y cyflwyniad yn rhoi trosolwg o'r dystiolaeth a gasglwyd mewn darn trawiadol o ymchwil, a gall ddarparu glasbrint i ddangos sut y gallwn ddechrau cynllunio gwasanaethau i gwrdd yn well ag anghenion pobl ifanc a rhai sy'n gadael gofal.</p>
15:35	<p>Angen blaenoriaethol: addas ar gyfer y dyfodol? Cadeirydd: Katie Dalton, Cyfarwyddwr - Cymorth Cymru Helen Taylor, Uwch-ddarlithydd - Prifysgol Metropolitan Caerdydd / Sefydliad Astudiaethau Tai Kieran Towler, Rheolwr Tai - Gofal Rebecca Jackson, Swyddog Polisi ac Ymchwil - Shelter Cymru Cafodd y Ddeddf Tai (Cymru) ei chanmol yn fawr pan aeth drwy'r Cynulliad, gan ennyn eiddgedd o gyfeiriad cenhedloedd eraill. Fodd bynnag, mae yna wastad rai sy'n cwmpo drwy'r bylchau yn ein system – lle bo pobl yn cael trafferth i ymgysylltu â'n dull ni o weithio, neu'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei dehongli. Bydd y sesiwn hon yn gofyn cwestiynau heriol i'r cynadleddwyr ynghylch y modd y gellir trawsnewid y system yn y dyfodol. A ddylen ni gael gwared o angen blaenoriaethol? Ydy'r Prawf Pereira yn addas i'r diben? Sut mae awdurdodau lleol yn dehongli iechyd meddwl pobl, a phenderfynu a ydynt yn 'fregus' ai peidio o safbwynt y gyfraith? Ac a ddylen ni fod yn gweithio i wrthweithio'r newid i statws angen blaenoriaethol yn achos rhai sy'n gadael y carchar?</p>
16:15	Diwedd

